

# SMR 11: Safonau Lles i Amddiffyn Lloi



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Rhagfyr 2014

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

Amcan y gofynion hyn yw diogelu lles lloi trwy bennu'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer gofalu amdanyn nhw a'u cadw. Rhaid i bawb sy'n cadw lloi gadw at y rheolau hyn, yn ogystal â'r gofynion lles anifeiliaid fferm (SMR 13).

## Prif ofynion

Rhaid bodloni'r safonau gofynnol canlynol wrth fagu neu besgi lloi:

- Rhaid archwilio pob llo sy'n cael ei gadw dan do o leiaf ddwywaith y dydd, a'r rheini sydd allan, o leiaf unwaith bob dydd;
- Peidiwch byth â chlymu'ch llo heblaw am gyfnodau byr er mwyn ei fwydo â llaeth neu â llaeth ffug;
- Ar gyfer llociau unigol:
  - rhaid i hyd y lloc fod o leiaf yr un hyd â chorff y llo pan fydd yn sefyll, er mwyn iddo allu sefyll, troi, gorwedd a llyfu ei hun;
  - rhaid i led y lloc fod o leiaf yr un peth â thaldra'r llo pan fydd yn sefyll.
- Peidiwch â chadw llo dros 8 wythnos oed mewn lloc ar ei ben ei hun oni bai bod milfeddyg wedi dweud bod angen ei ynysu neu fod angen triniaeth arno;
- Rhaid i loc y llo fod yn lân ac wedi'i ddiheintio yn ôl y gofyn, bydd gwely (sarn) i orwedd arno a chaiff ei oleuo'n naturiol neu'n artiffisial;
- Dylai llo gael:
  - llaeth tor o fewn 6 awr ar ôl ei eni;
  - digon o fwyd sy'n addas i'w oed;
  - dŵr yfed glân ar gael bob amser.

## Archwiliadau maes

- Gofalwch fod lloc y llo yn ateb y gofynion uchod.
- Gwnewch yn siŵr bod gan y ffermwr gopi o'r Cod Lles Gwartheg, neu'n gwybod lle i gael copi.

## Arfer da

- Dilynwch y canllawiau yn y Cod Lles ar gyfer cadw lloi dan do.

## Am fwy o wybodaeth, cysylltwch a:

Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

Gweler y daflen 'Cysylltiadau Defnyddiol' yn y pecyn hwn

<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/ahw/animalwelfare/livestockwelfare/?skip=1&lang=cy>